

Cwmpas y Cynllun Gweithredu:

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymdrin â rhostir yr iseldir¹, sef un o gynefinoedd blaenoriaeth CGB y DU. Un nodwedd o'r cynefin hwn yw amlygrwydd rhywogaethau o brysgwyddau man, gan gynnwys y grug *Calluna vulgaris*, y clychrug *Erica cinerea*, y grug croesddeiliog *Erica tetralix* ac, yng Nghymru, yr eithin mân *Ulex gallii*. Gellir dosbarthu rhostir yr iseldir yn fras i ddau ddsbarth – gwlyb a sych – yn cynnwys rhywogaethau fel gwellt y gweunydd *Molinia caerulea*, gwellt carw *Trichophorum cespitosum* a'r grug croesddeiliog *Erica tetralix* ac hefyd y mwsogau *Sphagnum* sydd yn fwy nodweddiadol o rhostir gwlyb. Gellir canfod rhostir llaith hefyd ar Benrhyn Llŷn lle mae'r hinsawdd cefnforol yn hyrwyddo nodweddion rhostiroedd sych a gwlyb fel ei gilydd. Yng Ngwynedd, yn aml fe geir rhostir yr iseldir yn gymysg gyda chynefinoedd eraill megis mân brysgwyddau, eithin, glaswellt, llaciau, corysdd, ffeniau, brigiadau creigiog a thir noeth.

Mae rhostir yr ucheldir, a ystyrir fel arfer yn rhostir sydd i'w ganfod uwchlaw'r wal fynydd (neu uwchlaw uchder o 300m), yn derbyn sylw mewn Cynllun Gweithredu arall. Fodd bynnag, ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri ac ar fryniau gogleddol Penrhyn Llŷn, gyda dylanwad hinsawdd cefnforol y penrhyn, nid yw'r gwahaniaeth rhwng rhostir yr ucheldir a rhostir yr iseldir bob amser yn amlwg.



Mae Gwynedd yn nodedig am fod yn sir yn cynnwys ardaloedd gweddol eang o ddau fath o rhostir arfordirol sydd yn anghyffredin yng Nghymru : rhostir arfordol a nodweddir gan y gwair merllyn *Scilla verna* a rhostir twyni lle ceir hesg tywod *Carex arenaria* yn weddol gyffredin. Mae'r ddau fath hwn o rhostir yn derbyn sylw yn eu tro yng Nghynllun Gweithredu Clogwyni a Llethrau Arfordol a Chynllun Gweithredu Twyni Tywod yr Arfordir. Mae llystyfiant rhostir sydd yn tyfu mewn mawn dyfn (0.5m neu ddyfnach) yn dod o dan gynllun Gweithredu Gwlyptiroedd. Gellir dosbarthu rhai cymunedau mignedd fel rhostiroedd gwlyb ond fe ddönt hwy dan gynllun gweithredu Porfa Rhos oherwydd bod cymaint o wellt y gweunydd *Molinia caerulea* yn bresennol ynddynt. Fodd bynnag, mae gwahanol fathau o rhostiroedd yn aml yn ymdoddi i'w gilydd ac mae'n bosibl y ceir parthau lle bydd y gwahanol fathau yn gymysg â'i gilydd.

1. STATWS PRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwydddeb Cynefinoedd ^a (Atodiad I) Cyfarwydddeb Adar ^b
DU a Chymru	Deddfwriaeth SoDdGA ^c (rhai rhostir yr iseldir) Cynefin blaenoriaeth CGB y DU Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 ^d
Gwynedd	CGB Eryri AHNE Llŷn

^a Mae rhostir yr iseldir yn dod dan ddau gynefin a restrir yn Atodiad I o "Cyfarwydddeb Cynefinoedd" – Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ynglŷn â gwarchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt yr UE, "Rhostiroedd Sych Ewrop" a "Rhostiroedd Gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix*".

^b Gellir dynodi ardaloedd penodol o rhostir yr iseldir fel AGA o dan "Cyfarwydddeb Adar" – Cyfarwydddeb y Cyngor 79/409/EEC dyddiedig 2 Ebrill 1979 ar gadwraeth adar gwyllt.

^c Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000.

^d Dan Adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu "Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Biolegol". Hawlfraint y Goron 2003.

Ystlumod, Bran Goesgoch, Adar tir y fferm, Troellwr, Llinos y mynydd, Ysgyfarnog, Gwiber, Gwenyn, Brith y Gors, Pryf lladd, Pelenllys, Cen melyn y cerrig.

4. GWEI THREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- § Mae'r ardaloedd mwyaf arwyddocaol o rostir yr iseldir i'w canfod o fewn safleoedd a ddynodwyd fel ACA a / neu AGA. Ystyrir fod yr ardaloedd pwysicaf am rostir yr iseldir yng Ngwynedd i'w cael o fewn AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli.
- § Mae saith SoDdGA yng Ngwynedd lle mae rhostir yr iseldir yn brif elfen, ac mae ambell SoDdGA arall lle mae'n bosibl canfod rhywfaint o rostir yr iseldir ynddynt. Mae ardaloedd o rostir yr iseldir hefyd i'w gweld o fewn nifer o ardaloedd a glustnodwyd fel Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl.
- § Mae ardaloedd rhostir yr iseldir yn cael eu diogelu gan reoliadau AEA.

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- § Mae Cadw'r Lliw yn LIŷn yn brosiect a ariennir gan Amcan 1 ac sydd dan ofal CYMAD, menter adfywio economaidd leol, gyda chefnogaeth lawn gan CCGC, Cyngor Gwynedd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CFGA a Plantlife. Yn 2004, derbyniodd y cais gyllid am dair blynedd. Bwriad y prosiect yw darparu camau ar fyrder ar ddeg o safleoedd rhostir yr iseldir a pharatoi adroddiad posiblwydd fydd yn ei gwneud yn bosibl sefydlu camau ar gyfer rheoli rhostir yr iseldir yn y tymor hir.
- § Ar y funud, gall cytundebau rheoli ar gyfer rhostiroedd fod yn gytundebau AAS (Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif - mae 75% o ardal y cynllun o fewn ardal AAS LIŷn) a chytundebau Adran 15 CCGC.
- § Mae darpariaeth ar gyfer rheoli rhostiroedd o fewn cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal, ond mae nifer y rhai sydd yn rhan o'r cynllun hwn y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ar y funud yn isel oherwydd y cynllun AAS.
- § Mae grant CCGC wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i wella'u rheolaeth dros rostir yng ngorllewin LIŷn, a hefyd i adfer rhostir ar ran o Fynydd Rhiw oedd gynt dan goed.
- § Mae YBGCG wedi cwblhau astudiaeth posibilwydd i'r gwaith o adfer safleoedd rhostir presennol a hanesyddol yng Ngwynedd.
- § Mae'n bosibl y gellir sicrhau rheolaeth addas a / neu adfer rhostir yr iseldir trwy weithredu'r PGNG.

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- § Mae CCGC wedi cwblhau arolwg o safleoedd rhostir yr iseldir allweddol yng Nghymru, gan gynnwys Gwynedd.
- § Yn achos SoDdGA sydd yn cynnwys cytundebau rheoli, mae'r gwaith o fonitro yn mynd rhagddo ar rai safleoedd AAS ac ar rai safleoedd ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- § Mae CCGC yn cynnal ymchwil i benderfynu ar y dulliau gorau o reoli rhostiroedd Penrhyn LIŷn lle mae gormodedd o Ulex gallii.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEI THREDU

1. Cynnal a diogelu'r ardal bresennol o rostir yr iseldir yng Ngwynedd a sicrhau y caiff ei rheoli yn addas yn y tymor hir.

2. Adfer ardaloedd o rostir yr iseldir mewn mannau addas, er mwyn cynyddu tua 3% ar gyfanswm arwynebedd rhostir yr iseldir
3. Cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a mwynhâd y cyhoedd o gynefin rhostir yr iseldir.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ⁹
Polisi a deddfwriaeth		
1	Ystyried datblygu gweithgor ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau gweithredu rhostir yr iseldir Eryri a Gwynedd eu gweithredu yn effeithiol. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006	CG, APCE
2	Trwy'r broses cynllunio, sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gydnaws â chadwraeth rhostir yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
3	Sicrhau y caiff rheoliadau AEA ar gyfer Tir Heb ei Drin ac Ardaloedd Lled Naturiol eu gweithredu ar bob ardal o rostir yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	LICC, Partneriaid perthnasol
4	Sicrhau bod pob enghraifft o rostir yr iseldir sydd yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi yn Safleoedd Bywyd Gwyllt TARGED/AMSERLEN: Cychwyn y proses o ddynodi erbyn 2007	CG, CCGC, YBGGC
Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
5	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu gytundebau rheoli er mwyn sicrhau rheolaeth ffafriol a / neu er mwyn adfer cynefinoedd rhostir yr iseldir, gan gadw mewn cof anghenion rhywogaethau a chynefinoedd cysylltiol y CGBL TARGED/AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol ar 50%, Adfer 50 ha, erbyn 2015	CCGC, CTG, LICC, UAC, GCFBG Cymru, CG, UCA Cymru
5	Gweithredu PGNG er mwyn sicrhau rheolaeth addas a/ neu er mwyn adfer a chreu rhostir yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CG, Partneriaid perthnasol.
6	Sicrhau y caiff cadwraeth a gwelliannau i rostir yr iseldir a rhywogaethau a chynefinoedd CGBLI eu hystyried o fewn unrhyw gynlluniau rheoli perthnasol neu gynlluniau grant (gan gynnwys CRCC, CGC, Tir Gofal, AAS) ac o fewn cynlluniau ail ddylunio coedwigoedd, trwy gydlyn (yn cynnwys ymgynghori a chyfnewid syniadau) gyda chyrff allweddol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, LICC, CC, CG, YG, YBGGC, CFGA
Cynghori		
7	Darparu cyngor integredig i berchnogion a rheolwyr tir ar ddulliau addas o reoli rhostir yr iseldir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CTG, LICC, UAC, CG, UCA Cymru, YG, YBGGC
8	Darparu cyngor, fel bo angen, i swyddogion Cynllunio a Chynllunio Mwynau CG ar ddiogelu, adfer ac ail greu ardaloedd o rostir yr iseldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YAG, YBGGC
Arolygon, ymchwil a monitro		
9	Cofnodi maint ac ansawdd safleoedd rhostir yr iseldir trwy raglen yn cynnwys rhestr o'r data sydd ar gael (Cam 1, Arolwg CCGC o Lystyfiant yr Ucheldir, Safleoedd Bywyd Gwyllt ac arolygon eraill) a gwaith arolygu, a chanfod safleoedd allweddol ar gyfer sefydlu rheolaeth addas neu ar gyfer adfer (cyn safleoedd gerllaw, neu yn agos at, safleoedd presennol sydd yn addas i'w gwrthdroi) TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2010	CCGC, CG, YBGGC, CFGA, YG
10	Sefydlu rhestr o'r holl rywogaethau sydd yn brin drwy Brydain, rhywogaethau Data Coch a rhywogaethau blaenoriaeth CGB o fewn y cynefin yng Ngwynedd. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2010	CCGC, CG, CFGA, YBGGC

⁹ Dangosir y prif bartner ar gyfer y camau gweithredu hyn mewn print tywyll, gweler adran 7.2 am eglurhâd o'r byrfoddau

Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
11	Codi ymwybyddiaeth am rostir yr iseldir a dulliau o'i ddiogelu ymhlith perchnogion a rheolwyr tir trwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a rhoi sgysrsiau i grwpiau perthnasol (e.e. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol UCA, UAC, CTG) TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YG, YBGGC, CFGA
12	Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am rostir yr iseldir a rhywogaethau cysylltiol trwy gyfrwng erthyglau yn y cyfryngau, dyddiau agored, teithiau fferm, dehongliadau a digwyddiadau. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YG, YBGGC, CFGA

7. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

7.1 Prif barner arweiniol ar gyfer y CGC

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

7.2 Parneriaid allweddol

Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (CTG)

CYMAD

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)

Comisiwn Coedwigaeth (CC)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (YAG)

Cyngor Gwynedd (CG)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC)

Cymdeithas Frenhinol Diogelu Adar (CFGGA)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru (GCFBG Cymru)

7.3 Cyfleoedd

Undebau amaethyddol, perchnogion a rheolwyr tir, arbenigwyr lleol

8. CYDNABOD

Prif Awdur: Elinor Gwynn (CCGC)

Ymgynghorol: Jan Sherry (CCGC), Karen Rawlins (CCGC), Aisling Carrick (LICC)

Llinluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AAS: Ardal Amgylchedd Sensitif, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, CBCN: Cyd Bwyllgor Cadwraeth Natur, CGBLI: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, PGNG: Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd, SoDdGA: Safleoedd o

Diddordeb Gwyddonol Arbennig, AHNE: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, AEA: Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd.

Fersiwn 1, 2005

¹ Dosbarthiad Grŵp Bioamrywiaeth y DU - Jackson, D.L. 2000. Cyfarwyddyd ar ddehongli Dosbarthiad Cynefinoedd Eang Bioamrywiaeth (mathau tir a dŵr croyw): Diffiniadau a'r berthynas gyda dulliau eraill o ddsbarthu cynefinoedd. Adroddiad CBCN Rhif 307.

² Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Rhostir yr I seldir y DU. Bioamrywiaeth : Adroddiad Grŵp Llywio y DU. Cyfrol II – Cynlluniau Gweithredu. 1995. HMSO Llundain.

³ Jones, P.S. et al, 2003. Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru: cyfarwyddyd technegol. CCGC.